| | |
|---|---|
| **Dyddiad creu:** | 26/03/19 |
| **Dyddiad cyhoeddi:** | 01/03/19 |
| **Rhif y fersiwn:** | 1.00 |

| | |
|---|---|
| **Maes Gwasanaeth:** | Isadran Tai |
| **Man Gweithio:** | Tîm Dewisiadau Tai Caerffili |
| **Manylion cyswllt:** | 01443 873552<br>CyngorArDai@caerffili.gov.uk |
| **Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Digartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref |
| **Disgrifiad o'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn egluro sut y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn defnyddio'r wybodaeth y byddwch yn ei darparu, ac unrhyw wybodaeth amdanoch y byddwn yn ei chael gan sefydliadau eraill, pan fyddwch yn cyflwyno'ch hun yn ddigartref neu mewn perygl o golli'ch cartref. |

# Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

## Y diben a'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth

### Diben y gwaith prosesu

Os ydych yn ddigartref neu mewn perygl o golli'ch cartref, mae gan y Cyngor ddyletswydd o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 i edrych yn fanwl ar eich sefyllfa a chael gwybod sut y gallwn, o bosibl, eich helpu.

Os ydych dan fygythiad o fod yn ddigartref, byddwn yn gweithio gyda chi i gymryd pob cam rhesymol i atal digartrefedd rhag digwydd, naill ai drwy weithio gyda chi i gadw'ch cartref presennol neu drwy ddod o hyd i lety arall.

Os ydych eisoes yn ddigartref, byddwn yn cymryd pob cam rhesymol i ddod o hyd i lety arall i chi.

Bydd disgwyl i chi weithio gyda'ch gweithiwr achos i gytuno ar gamau rhesymol, a all gynnwys:

- cael cynnig llety addas gyda landlord preifat
- cael cynnig llety addas â chymorth
- cymorth i sicrhau llety rydych wedi dod o hyd iddo ar eich liwt eich hun
- cael cynnig tai cymdeithasol addas

Gellir hefyd ddefnyddio'r wybodaeth a gesglir er mwyn asesu eich cymhwysedd i gael eich derbyn ar y Gofrestr Tai Cyffredin, i bennu lefel y flaenoriaeth y gellir ei rhoi i'r cais a materion cysylltiedig eraill.

Mae'r Gofrestr Tai Cyffredin yn caniatáu i ymgeiswyr wneud cais am dai cymdeithasol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a landlordiaid tai cymdeithasol eraill yn y fwrdeistref sirol drwy gyflwyno un cais.

Darperir rhagor o wybodaeth am y broses hon yn y ddolen isod:

https://www.caerphilly.gov.uk/CaerphillyDocs/FOI/PrivacyNotices/Housing_Application_Privacy_Notice_cy.aspx

## Sail gyfreithiol ar gyfer y gwaith prosesu

Mae gofyniad tasg cyhoeddus i brosesu eich gwybodaeth fel y manylir isod:

Er mwyn galluogi'r Cyngor, fel awdurdod tai lleol, i arfer ei awdurdod a freiniwyd ynddo gan Ran 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ac er mwyn i'r Cyngor gyflawni ei dasgau, a wneir er budd y cyhoedd, asesu a oes dyletswydd i'r sawl o ran digartrefedd neu 'fygythiad' o ddigartrefedd yn unol ag Adrannau 62, 66, 68, 73 AC Adran 75 o ddyletswydd statudol y Cyngor i ymchwilio i'r holl geisiadau o ran digartrefedd bosibl, a'u hasesu.

Er mwyn i brosesu data personol fod yn gyfreithlon o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016, mae'n rhaid nodi amod dilys o erthygl 6 o'r Rheoliad, a amlinellir isod:

1e. mae angen prosesu ar gyfer cyflawni tasg a wnaed er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a freiniwyd yn y rheolwr;

Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn darparu amddiffyniad ychwanegol ar gyfer rhai dosbarthiadau o wybodaeth o'r enw 'data personol arbennig' a 'data am euogfarnau troseddol'. Os yw unrhyw wybodaeth yn dod o fewn diffiniad y dosbarthiadau hyn, wedyn bydd yn rhaid nodi amod ychwanegol o Erthygl 9 / Erthygl 10 o'r Rheoliadau, fel y nodir isod (nid yw'r rhan hon o'r ddogfen ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

Deddf Diogelu Data 2018, Atodlen 2, Adran 6 (Amod Erthygl 9 ac Erthygl 10)
(1) This condition is met if the processing—
  (a) is necessary for a purpose listed in sub-paragraph (2), and
  (b) is necessary for reasons of substantial public interest.
(2) Those purposes are—
  (a) the exercise of a function conferred on a person by an enactment or rule of law;
  (b) the exercise of a function of the Crown, a Minister of the Crown or a government department.

### Y ffynhonnell a'r math o wybodaeth a brosesir

Yn dibynnu ar eich amgylchiadau, er mwyn i ni eich helpu, bydd angen i chi roi gwybodaeth/dogfennau perthnasol i ni, a all gynnwys ond heb eu cyfyngu i'r canlynol:

- Eich enw, manylion cyswllt, dyddiad geni, Rhif Yswiriant Gwladol, a chyfeiriadau blaenorol.
- Enwau, cyfeiriad/manylion cyswllt aelodau eraill o'ch cartref, gan gynnwys cynbartneriaid, plant, rhieni, brodyr a chwiorydd a chynbartneriaid trwy gyd-fyw.
- Cyflyrau meddygol/iechyd, cyffuriau ar bresgripsiwn a manylion eich Meddyg Teulu/Meddygfa.
- Manylion profiannaeth, gan gynnwys y manylion am gam-ddefnyddio cyffuriau/alcohol, cofnodion troseddol ac euogfarnau, manylion y dioddefwyr.
- Manylion am y cymorth rydych, o bosibl, yn ei gael – megis gweithiwr cymdeithasol a gweithwyr cymorth eraill – gan gynnwys eu gohebiaeth â chi.
- Manylion am eich sefyllfa ariannol, gan gynnwys gohebiaeth/gwybodaeth am ddyled, Dyfarniadau Llys Sirol ('CCJ'), cyfriflenni banc, cyfloglenni, tystiolaeth o fudd-daliadau, gohebiaeth/gwybodaeth o ran asiantaethau credyd a morgais.
- Enw'r landlord, ei gyfeiriad / ei fanylion cyswllt, a'r manylion am yr eiddo rhent.

Mae'n bosibl y bydd hefyd angen arnom wybodaeth ychwanegol amdanoch, neu mae'n bosibl y bydd angen i ni wirio'r wybodaeth y byddwch wedi'i darparu gydag eraill. Gall y mathau o sefydliadau y gallwn gysylltu â nhw i'r dibenion hyn gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

| **Math o sefydliad** | **Math o wybodaeth i'w chael/dilysu** |
|---|---|
| Eich Meddyg Teulu / Gweithiwr Meddygol Proffesiynol | Cyflyrau iechyd meddwl/corfforol, meddyginiaethau ar bresgripsiwn. |
| Gwasanaeth Prawf | Manylion am droseddau a manylion y dioddefwyr, cofnodion troseddol ac euogfarnau. Manylion am gamddefnyddio cyffuriau/alcohol. |
| Cofrestrfa Tir | Tystiolaeth o berchnogaeth eiddo. |
| Y Swyddfa Gartref | Gwirio'r hawl i breswylio yn y Deyrnas Unedig. |
| Asiantaethau Budd-daliadau, yr Adran Gwaith a Phensiynau ('DWP') | Gwybodaeth am y budd-daliadau rydych yn eu cael. |

## Pwy fydd yn gallu cyrchu eich gwybodaeth?

### Manylion y Rheolwr Data a'r Swyddog Diogelu Data

Y Rheolwr Data ar gyfer eich gwybodaeth yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Y Swyddog Diogelu Data yw:

Ms Joanne Jones
Y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol / Swyddog Diogelu Data
E-bost: diogeludata@caerffili.gov.uk
Ffôn: 01443 864322

Efallai y bydd Rheolwyr Data eraill hefyd yn gyfrifol am eich gwybodaeth, yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth.

### Manylion am brif ddefnyddwyr eich gwybodaeth

Prif ddefnyddiwr eich gwybodaeth yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili fydd Tîm Dewisiadau Tai Caerffili, y mae ei fanylion cyswllt ar frig y ddogfen hon. Gall eich gwybodaeth hefyd gael ei defnyddio gan adrannau eraill yn yr adran tai er mwyn darparu cefnogaeth i'r rhai sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref. Gall hyn gynnwys yr Uned Llety Brys.

### Manylion am unrhyw rannu o'ch gwybodaeth o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Gellir rhannu unrhyw wybodaeth a ddarperir, sy'n ymwneud â landlordiaid y sector preifat, asiantau rheoli neu eiddo rhent preifat, â gwasanaeth Tai'r Sector Preifat Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, at y dibenion canlynol:

- I ymchwilio ac, os oes angen, cymryd camau yn erbyn landlordiaid ac asiantau nad ydynt wedi'u cofrestru, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Efallai y bydd gwasanaeth Tai'r Sector Preifat yn rhannu'r wybodaeth hon â Rhentu Doeth Cymru.
- I ymchwilio ac, os oes angen, cymryd camau yn erbyn landlordiaid eiddo sydd mewn cyflwr gwael o dan ddeddfwriaeth amrywiol.
- I ymchwilio ac, os oes angen, cymryd camau yn erbyn landlordiaid tai amlfeddiannaeth sydd heb drwydded ac/neu nad ydynt yn bodloni'r safonau tai amlfeddiannaeth sydd eu hangen o dan ddeddfwriaeth amrywiol.

Os ydych yn denant i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, gallwn rannu gwybodaeth berthnasol â'r Isadran Rhenti at ddibenion gwasanaethau atal digartrefedd sy'n gysylltiedig â chymorth incwm a dyled.

Gallwn rannu eich gwybodaeth berthnasol â'r Gwasanaethau Cymdeithasol at ddibenion amddiffyn plant/rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Plant, y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol. Gallwn hefyd rannu gwybodaeth berthnasol â'r Gwasanaethau Cymdeithasol at ddibenion amddiffyn oedolion bregus.

Os credir, ar unrhyw gam o'r broses, y gallai plentyn fod mewn perygl, gwneir atgyfeiriad i'r Gwasanaethau Plant a dilynir Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan, a gall hyn arwain at ymchwiliad ac asesiad ffurfiol.

**Manylion am unrhyw rannu o'ch gwybodaeth â sefydliadau eraill**

Er mwyn darparu'r cymorth sydd ei angen arnoch, efallai y bydd angen i ni gysylltu â'ch landlord ac/neu ei asiant. Gall hyn olygu y byddwn yn rhannu gwybodaeth berthnasol â nhw er mwyn atal digartrefedd.

Efallai y bydd angen i ni weithio gyda chi neu eich atgyfeirio i sefydliad arall a all eich helpu. Gall y mathau o sefydliadau y gallwn weithio gyda nhw neu atgyfeirio eich achos iddyn nhw gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

| **Math o sefydliad** | **Diben** |
|---|---|
| Cyngor ar Bopeth | Gorchmynion rhyddhau o ddyled, cyngor ar gyllidebu a chymorth achub morgeisi. |
| Shelter | Cymorth achub morgeisi, argyfwng dyledion, cyngor annibynnol ar faterion tai. |
| Uned Benthyca Arian Anghyfreithlon Cymru | Ymchwilio ac amddiffyn rhag camau troi allan. |
| Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan | Asesu anghenion a chydlynu gwasanaethau. |
| Cefnogi Pobl | Dadansoddi'r asesiad o anghenion a thystiolaeth ar gyfer gwasanaethau cymorth dan gontract. |
| Asiantaethau budd-daliadau, yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Ganolfan Byd Gwaith | Cymorth incwm a rhyddhau o ddyled. |
| Canolfan Cydweithredol Cymru ar gyfer Digartrefedd | Gwasanaethau atal sy'n gysylltiedig â chymorth incwm a dyled. |
| Sefydliadau'r trydydd sector sy'n darparu cymorth ar gyfer cleientiaid sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref, megis Llamau, Gofal Pobl | Darparu cymorth cyfredol yn ôl yr angen o ran materion tai ar gyfer cleientiaid sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref. |
| Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol<br>Yr Heddlu | Asesiad o anghenion tai a chymorth digartref fel rhan o lwybr cenedlaethol Cymru ar gyfer pobl sy'n gadael y carchar. |

Er mwyn dod o hyd i lety arall i chi, mae'n bosibl y bydd angen i ni rannu gwybodaeth amdanoch â darparwyr llety brys, llochesau, llety â chymorth, darparwyr llety dros dro, darparwyr llety Gwely a Brecwast, landlordiaid preifat, asiantau gosod tai a darparwyr tai cymdeithasol.

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gyfrifoldeb cyfreithiol i ddiogelu arian cyhoeddus. Efallai y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd i atal a chanfod twyll, a hefyd ofyn

am wybodaeth oddi wrth sefydliadau eraill sy'n trafod arian cyhoeddus, a throsglwyddo gwybodaeth iddynt.

**Ceisiadau am wybodaeth**

Mae'n bosibl y bydd yr holl wybodaeth a gedwir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a deddfwriaeth Diogelu Data.

Os bydd y wybodaeth a ddarperir gennych yn destun cais o'r fath, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymgynghori â chi ynghylch ei rhyddhau, lle bo hynny'n bosibl. Os byddwch yn gwrthwynebu rhyddhau eich gwybodaeth, byddwn yn cadw'r wybodaeth yn ei hôl, os bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu i hynny ddigwydd.

## Am ba hyd y byddwn yn cadw eich gwybodaeth?

**Manylion am y cyfnod cadw**

Mae'r cyfnod y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cadw gwybodaeth yn cael ei bennu drwy ofynion statudol neu arferion gorau.

Rydym yn cadw'r holl wybodaeth a ddarperir gennych neu a gesglir mewn perthynas â bod yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref am 10 mlynedd o ddyddiad cau'r achos.

## Eich Hawliau (gan gynnwys y Weithdrefn Gwynion)

**Eich hawliau dan gyfraith Diogelu Data**

Mae'r ddeddf Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i destun y data (y rheiny y mae'r wybodaeth yn sôn amdanynt):

- Hawl i gael mynediad at ddata gan y testun – mae ffurflenni cais ar gyfer y broses hon ar gael ar ein gwefan: Ffurflen Gais am Fynediad at Ddata gan y Testun (SAR)
- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i ddileu
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
- Yr hawl i wrthwynebu
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau ar gael ar y wefan hon: www.ico.org.uk

Er mwyn arfer eich hawliau, cysylltwch â'r maes gwasanaeth y manylir arno ar frig y ffurflen hon.

**Y Weithdrefn Gwynion**

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymdrin â'ch cais/gwybodaeth, mae gennych yr hawl i gwyno. Cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth, y manylir arno ar frig y ddogfen hon, gan amlinellu eich pryderon.

Os byddwch yn parhau'n anfodlon, mae gennych hefyd yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Dilynwch y ddolen hon am ragor o wybodaeth am y broses gwyno.

www.caerffili.gov.uk/My-Council/Data-protection-and-freedom-of-information/Questions-and-complaints?lang=cy-gb

# Crynodeb o'r Hysbysiad Preifatrwydd

## Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

Bydd y wybodaeth a ddarperir gennych yn cael ei defnyddio i asesu a ydych yn ddigartref neu mewn perygl o golli'ch cartref. Os ydych yn ddigartref neu mewn perygl o golli'ch cartref, mae gan y Cyngor ddyletswydd o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 i edrych yn fanwl ar eich sefyllfa a chael gwybod sut y gallwn, o bosibl, eich helpu.

Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu'ch gwybodaeth yw bod angen prosesu ar gyfer cyflawni tasg a wnaed er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a freiniwyd yn y rheolwr.

Rydym yn cadw'r holl wybodaeth a ddarperir gennych neu a gesglir mewn perthynas â bod yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref am 10 mlynedd o ddyddiad cau'r achos.

Gellir hefyd ddefnyddio'r wybodaeth a gesglir er mwyn asesu eich cymhwysedd i gael eich derbyn ar y Gofrestr Tai Cyffredin, i bennu lefel y flaenoriaeth y gellir ei rhoi i'r cais a materion cysylltiedig eraill. Mae'r Gofrestr Tai Cyffredin yn caniatáu i ymgeiswyr wneud cais am dai cymdeithasol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a landlordiaid tai cymdeithasol eraill yn y fwrdeistref drwy gyflwyno un cais.

Gellir rhannu gwybodaeth berthnasol hefyd o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ac â sefydliadau eraill, lle bo angen; i gael rhagor o wybodaeth am hyn, dilynwch y ddolen isod.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael gafael ar wybodaeth sydd gennym amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu.

Am ragor o wybodaeth am eich hawliau a sut rydym yn prosesu'ch gwybodaeth, cliciwch ar y ddolen ganlynol:

{Hyperddolen i'r Hysbysiad Preifatrwydd Llawn ar ein gwefan}